Adran Gwaith
a Phensiynau

Adolygiad o bwerau mynediad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 42(1)(c) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012

Tachwedd 2014

© Hawlfraint y Goron 2014

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.2. I weld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/ neu e-bostiwch **PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk** Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid cael caniatâd y deiliad hawlfraint priodol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/powers-of-entry-review

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn

Bobby Towers
Department for Work and Pensions
Fraud, Error and Debt, Policy and Legislation team
Level 5B Caxton House
Tothill Street
London
SW1H 9NA

E-bost: robert.towers@dwp.gsi.gov.uk

Argraffedig ISBN 9781474102612
Gwe ISBN 9781474102629

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Rhif Adnabod 2640921 11/14

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Cynnwys

Pennod 1 **Cyflwyniad** 4

Pennod 2 **Crynodeb gweithredol** 6

1 Cyflwyniad

1.1 1.1 Mae Adran 42 o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i bob Ysgrifennydd Gwladol gynnal adolygiad o'r pwerau mynediad perthnasol a phwerau cysylltiedig perthnasol, y maent yn gyfrifol amdanynt gyda'r bwriad o benderfynu p'un a ddylid gwneud gorchymyn i ddiddymu unrhyw bŵer mynediad neu bŵer cysylltiedig yr ystyrir ei fod yn ddianghenraid neu'n amhriodol. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Ysgrifennydd Gwladol baratoi adroddiad o'i ganfyddiadau a chyflwyno'r adroddiad hwnnw gerbron y Senedd o fewn dwy flynedd i'r adeg y daw'r Ddeddf i rym.

1.2 Hefyd, fel sy'n ofynnol o dan Adran 47 o'r Ddeddf, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi cod ymarfer sy'n cynnwys canllawiau ynghylch arfer pwerau mynediad a phwerau cysylltiedig. Bydd y cod yn nodi ystyriaethau sy'n berthnasol cyn, yn ystod ac ar ôl arfer pŵer mynediad, er mwyn rhoi mwy o gysondeb wrth arfer y pwerau hyn ac eglurder i'r sawl y maent yn effeithio arnynt, tra'n cynnal gorfodaeth effeithiol.

1.3 Mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (yn cynnwys y Cyrff Cyhoeddus Anadrannol hynny sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau) 15 o bwerau i gael mynediad i eiddo heb warant ac, yn unol â'r gofynion y rhoddir arni o dan y Ddeddf, mae wedi ystyried pob un o'r pwerau hyn, yn cynnwys y mesurau diogelwch ynddynt a ph'un a fyddai'n briodol uno, diwygio, diddymu neu gynyddu'r mesurau diogelwch yn y pwerau. Mae'r pwerau perthnasol a'r meysydd sy'n gyfrifol amdanynt fel a ganlyn:

- mae gan y Grŵp Cynhaliaeth Plant un pŵer, wedi'i gynnwys yn Adran 15 o Ddeddf Cynhaliaeth Plant Act 1991;
- mae gan y Gwasanaeth Twyll a Chamgymeriadau un pŵer, wedi'i gynnwys yn Adran 109C o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol Act 1992;
- mae gan y Rheoleiddiwr Pensiynau chwe phŵer, wedi'u cynnwys yn Adrannau 73 a 74 o Ddeddf Pensiynau 2004;
- mae gan y Gronfa Diogelu Pensiynau un pŵer, wedi'i gynnwys yn Adran 192 o Ddeddf Pensiynau 2004;

- mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch chwe phŵer o fewn cwmpas yr adolygiad: Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Rheoliadau Diogelwch Nwy (Hawliau Mynediad) 1996, Deddf Ffrwydron 1875, Rheoliadau Cynhyrchion Bywleiddiaid 2001, Rheoliadau Pib-linellau Tanfor (Arolygwyr etc) 1977 a Deddf Petrolewm (Cydgrynhoad) 1928.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion y pwerau a adolygwyd, canlyniadau pob adolygiad a'r camau nesaf i'w cymryd. Ceir dadansoddiad manylach mewn perthynas â phob pŵer ac esboniad o'r penderfyniadau a gymerwyd, er enghraifft, pam eu bod yn cael eu diddymu, eu diwygio neu eu cadw gan y Llywodraeth yn **Atodiadau A i Ch**.

Crynodeb gweithredol 2

2.1 Y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Gronfa Diogelu Pensiynau

2.1.1 Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Gronfa Diogelu Pensiynau yn Gyrff Cyhoeddus Anadrannol a sefydlwyd o dan Ddeddf Pensiynau 2004 ac sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ac i'r Senedd.

2.1.2 Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn rheoleiddio dros 46,000 o gynlluniau pensiwn y Deyrnas Unedig (y DU) gydag asedau cyfunol o tua £1.5 triliwn. Ei amcanion statudol yw diogelu buddiannau aelodau (mae mwy na 18 miliwn o bobl yn aelodau o'r cynlluniau hyn), hyrwyddo proses dda o weinyddu cynlluniau yn y gweithle, a lleihau'r risg y caiff iawndal ei dalu gan y Gronfa Diogelu Pensiynau. Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod cyflogwyr yn cydymffurfio i'r eithaf â'r dyletswyddau newydd i gyflogwyr (yn cynnwys cofrestru'n awtomatig) a gyflwynwyd gan Ddeddf Pensiynau 2008; a bydd yn gyfrifol am reoleiddio'r broses o lywodraethu a gweinyddu cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus o 2015. O fis Gorffennaf 2014, mae gan y Rheoleiddiwr Pensiynau amcan statudol newydd (mewn perthynas â chyllid cynllun budd diffiniedig yn unig), i sicrhau yr effeithir cyn lleied â phosibl ar dwf cynaliadwy cyflogwr.

2.1.3 Mae gan y Rheoleiddiwr Pensiynau chwe phŵer i gael mynediad i eiddo heb warant, pob un at ddiben gwahanol, wedi'u cynnwys yn Adrannau 73 a 74 o Ddeddf Pensiynau 2004. Ni ellir defnyddio yr un o'r pwerau hyn mewn perthynas ag eiddo sy'n annedd breifat na chaiff ei defnyddio at ddibenion busnes, ac nid yw'r pwerau yn caniatáu i'r rheoleiddiwr gael mynediad drwy rym. Gall y Rheoleiddiwr Pensiynau gael mynediad drwy rym, os ystyrir bod hyn yn briodol, drwy gael gwarant o dan y pŵer yn Adran 78 o Ddeddf 2004.

2.1.4 Yn ogystal, ceir nifer o fesurau diogelwch yn y ddeddfwriaeth, yn cynnwys gofyniad i gynnal arolygiad ar amser rhesymol; i'r arolygydd ddangos tystysgrif apwyntiad; a gellir cyfyngu ar y cyfnod y gellir caffael dogfennau. Mae gan y Rheoleiddiwr Pensiynau nifer o reoliadau

mewnol sy'n cydymffurfio â mesurau diogelwch eraill a gaiff eu cwmpasu gan god ymarfer y Llywodraeth, er nad oes gofyniad cyfreithiol i'r rheoleiddiwr roi hysbysiad o arolygiad ymlaen llaw (er mai dyma arfer arferol y rheoleiddiwr).

2.1.5 Mae'r Gronfa Diogelu Pensiynau yn diogelu aelodau cynlluniau pensiwn galwedigaethol budd diffiniedig (a'r elfen a ddiffinnir o gynlluniau hybrid) drwy dalu iawndal pan fydd cyflogwr yn mynd yn fethdalwr ac nad oes digon o asedau yn y cynllun i dalu buddiannau ar lefelau iawndal y Gronfa Diogelu Pensiynau.

2.1.6 Ar hyn o bryd, mae'r Gronfa Diogelu Pensiynau yn diogelu pensiynau 11.4 miliwn o aelodau o gynlluniau budd diffiniedig galwedigaethol. Mae'n talu iawndal i fwy na 104,000 o bobl ac, ar ddiwedd mis Awst 2014, roedd ganddi £17.1 biliwn o asedau, ac roedd wedi talu mwy na £1.4 biliwn mewn iawndal.

2.1.7 Mae gan y Gronfa Diogelu Pensiynau un pŵer i gael mynediad i eiddo heb warant, yn Adran 192 o Ddeddf Pensiynau 2004. Mae cyfyngiadau a mesurau diogelwch tebyg yn berthnasol i'r pŵer hwn fel sy'n berthnasol i bŵer y rheoleiddiwr, ac mae gan y Gronfa Diogelu Pensiynau hefyd y gallu i gael gwarant i gael mynediad i eiddo (gan ddefnyddio grym rhesymol os bydd angen) fel sy'n berthnasol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau (Adran 194 o Ddeddf Pensiynau 2004).

2.1.8 Fel gyda phwerau'r Rheoleiddiwr Pensiynau, mae Deddf Pensiynau 2004 yn nodi'r hyn y gall y Gronfa Diogelu Pensiynau ei wneud wrth ddefnyddio ei phwerau archwilio ac mae hyn yn cwmpasu amrywiaeth o ddarpariaethau casglu gwybodaeth, fel caffael dogfennau, gwneud ymholiadau, copïo dogfennau ac ati.

2.1.9 Ar ôl ystyried pwerau mynediad y rheoleiddiwr heb warant, daeth yr adolygiad i'r casgliadau canlynol:

- dylid diddymu tri o bwerau mynediad y rheoleiddiwr mewn perthynas â phensiynau cyfranddeiliaid (yn Adrannau 73(3), 73(4) a 74(1) o Ddeddf Pensiynau 2008), gan nad oedd hwn yn faes blaenoriaeth uchel i'r rheoleiddiwr, ac nid oedd yn debygol o ddod yn faes blaenoriaeth uchel iddo.
- er yr ystyriwyd bod dau o bwerau mynediad y rheoleiddiwr, yn Adrannau 73(1) a 74(4) o Ddeddf 2004, yn hanfodol i'w swyddogaethau, gellid uno'r pwerau hyn yn un pŵer mynediad;
- dylid cadw'r chweched pŵer, yn Adran 74(A1), sy'n ymwneud ag amcan y rheoleiddiwr i sicrhau bod cyflogwyr yn y DU yn cydymffurfio â'u gofynion cyfreithiol i gofrestru eu cyflogeion ar gyfer cynllun pensiwn yn awtomatig, ond dylid adolygu'r pŵer hwn yn 2017 gan ystyried profiad y rheoleiddiwr i sicrhau bod cyflogwyr yn cydymffurfio â'r dyletswyddau i gofrestru'n awtomatig;
- dylid diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu pwerau mynediad sy'n weddill rheoleiddiwr heb warant fel bod yn rhaid rhoi hysbysiad rhesymol o ymweliad, oni fyddai hysbysiad o'r fath yn mynd yn groes i ddiben yr ymweliad.

2.1.10 Gyda'i gilydd bydd y newidiadau hyn yn atgyfnerthu'r mesurau diogelwch sy'n cwmpasu pwerau mynediad y Rheoleiddiwr Pensiynau, ac yn eu symleiddio drwy leihau nifer y pwerau o chwech i ddau (gyda'r posibilrwydd o ostyngiad pellach ar ôl yr adolygiad yn 2017) tra'n sicrhau bod y rheoleiddiwr yn cadw'r pwerau sydd eu hangen i gyflawni ei amcanion statudol yn effeithiol.

2.1.1 Ar ôl ystyried pwerau mynediad y Gronfa Diogelu Pensiynau heb warant, daeth yr adolygiad i'r casgliadau canlynol:

- dylid diddymu pŵer y Gronfa Diogelu Pensiynau yn Adran 192 o Ddeddf Pensiynau 2004; a
- bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gweithio gyda'r Gronfa Diogelu Pensiynau i ystyried p'un a fydd angen diwygio pwerau eraill y Gronfa Diogelu Pensiynau i gael gwybodaeth yn Neddf 2004 oherwydd iddi golli pŵer mynediad yn Adran 192, er mwyn sicrhau y gall gaffael y wybodaeth sydd ei hangen arni i weithredu'n effeithiol.

2.2 Y Grŵp Cynhaliaeth Plant

2.2.1 Bydd y Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2012, yn disodli'r Asiantaeth Cynnal Plant yn y pen draw. Ar hyn o bryd, mae'r Asiantaeth Cynnal Plant yn gweinyddu Cynlluniau Cynnal Plant 1993 a 2003 a'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant sy'n gyfrifol am reoli cynllun statudol 2012.

2.2.2 Mae 2.5 miliwn o deuluoedd wedi gwahanu ym Mhrydain Fawr, ac mae amcangyfrifon cyfredol yn awgrymu bod trefniadau cynhaliaeth plant ar waith ar gyfer ychydig o dan 50 o'r rhain lle mae arian ar gael yn gyson. Caiff mwy na hanner hyn ei drefnu drwy'r Asiantaeth Cynnal Plant.

2.2.3 Amcan cyffredinol y Grŵp Cynhaliaeth Plant yw sicrhau bod trefniadau cynhaliaeth plant ar waith ar gyfer cymaint â phosibl o'r plant hynny sy'n byw ar wahân i un neu ddau o'u rhieni. Mae gan y Grŵp Cynhaliaeth Plant dair swyddogaeth graidd i gyflawni'r amcan hwn drwy'r system cynhaliaeth plant newydd:

- hyrwyddo cynhaliaeth plant;
- rhoi gwybodaeth a chymorth am yr opsiynau cynhaliaeth plant gwahanol sydd ar gael i rieni; a
- darparu gwasanaeth cynhaliaeth statudol effeithlon gyda chamau gorfodi effeithiol.

2.2.4 Mae gan y Grŵp Cynhaliaeth Plant un pŵer mynediad i eiddo meddiannydd wrth ymchwilio i achos cynhaliaeth plant a cheir darpariaeth ar ei gyfer o dan Adran 15 o Ddeddf Cynnal Plant 1991. Mae Adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi unigolion i weithredu fel Arolygwyr er mwyn caffael gwybodaeth am riant dibreswyl at unrhyw ddiben a nodir o dan Ddeddf Cynnal Plant 1991. Mae'r pŵer hwn fel ag y mae eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i sawl mesur diogelwch gael ei roi ar waith yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n rhaid i arolygydd ddangos ei Dystysgrif Apwyntiad os gofynnir iddo wneud hynny wrth wneud cais am gael mynediad i unrhyw eiddo wrth arfer pwerau archwilio.
- Bydd gan arolygydd bŵer i gael mynediad ar unrhyw amser rhesymol i unrhyw eiddo sy'n agored i gael ei archwilio ac y mae'n rhesymol iddo ofyn am gael mynediad er mwyn cyflawni'r swyddogaeth a nodir gan y pŵer. Gall yr arolygydd gynnal unrhyw archwiliad ac ymholiad yno fel ag y bydd yn briodol yn ei farn ef.
- Eiddo y gellir eu harchwilio yw'r rheini na chânt eu defnyddio'n llwyr fel tŷ annedd ac y mae gan arolygydd sail resymol dros amau eu bod:
  - i) yn eiddo lle mae'r rhiant dibreswyl yn cael ei gyflogi neu wedi cael ei gyflogi,
  - ii) yn eiddo lle mae'r unigolyn yn cyflawni galwedigaeth, masnach, proffesiwn neu fusnes neu lle mae wedi gwneud hynny
  - iii) yn eiddo lle ceir gwybodaeth gan uniglyn y mae'r arolygydd yn amau'n rhesymol bod ganddo wybodaeth am y rhiant dibreswyl a gafwyd drwy alwedigaeth, masnach, proffesiwn neu fusnes yr unigolyn hwnnw

- Gall arolygydd sy'n arfer ei bwerau gwestiynu unrhyw unigolyn sy'n 18 oed neu drosodd y daw o hyd iddo ar yr eiddo.
- Ni fydd yn ofynnol i unrhyw unigolyn o dan y pŵer hwn ateb unrhyw gwestiwn na rhoi unrhyw dystiolaeth a fyddai'n tueddu i argyhuddo ei hun, neu yn achos unigolyn sy'n briodol neu sy'n bartner sifil, i argyhuddo ei briod neu bartner sifil
- Os bydd arolygydd sy'n arfer ei bwerau yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny, bydd unigolyn yn rhoi i'r arolygydd gymaint o wybodaeth a dogfennau ag y bydd yn ofynnol yn rhesymol i'r arolygydd eu cael.

Hefyd, bydd arolygwyr ond yn cael mynediad i eiddo pan fydd caniatâd wedi'i roi gan y meddiannydd a rhaid iddynt adael pan fydd y caniatâd wedi'i dynnu'n ôl. Ni ddylai arolygwyr gael mynediad drwy rym. Yn hytrach, pan fydd y meddiannydd yn gwrthod rhoi mynediad ac ystyrir ei fod wedi arafu neu rwystro'r arolygydd, ystyrir ei erlyn

2.2.5 Ar ôl ystyried pwerau mynediad y Grŵp Cynhaliaeth Plant heb warant, daeth yr adolygiad i'r casgliadau canlynol:

- Mae Adran 15 yn bŵer angenrheidiol a hanfodol, yn enwedig wrth fynd i'r afael ag achosion mwy heriol a dadleuol. Mae'n anoddach casglu'r holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer pobl hunangyflogedig, yn cynnwys cyfarwyddwyr cwmnïau, a'u cael i gydsynio i dalu, o gymharu ag unrhyw grŵp cleient arall. Mae'r angen am bwerau mynediad ac arolygiadau yn hanfodol er mwyn galluogi'r Adran Gwaith a Phensiynau i gyfrifo cynhaliaeth plant a chasglu ôl-ddyledion yn amserol.
- Fel mesur diogelwch pellach, gan sicrhau y caiff y pŵer ei arfer mewn ffordd sy'n cydymffurfio'n llwyr â thelerau'r Ddeddf, bwriad y Grŵp Cynhaliaeth Plant yw diwygio Adran 15 o Ddeddf Cynnal Plant 1991 i gynnwys ei gwneud yn ofynnol yng Nghymru a Lloegr i geisio gwarant farnwrol o'r Llys Ynadon pan fydd meddiannydd yn gwrthod caniatáu mynediad i eiddo i swyddog sy'n defnyddio ei bwerau archwilio i gael mynediad er mwyn caffael y wybodaeth angenrheidiol. Bydd y Grŵp Cynhaliaeth Plant hefyd yn ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas â'i gynigion i ehangu'r newidiadau drwy'r broses ymgynghori arferol.

2.3 Y Gwasanaeth Twyll a Chamgymeriadau

2.3.1 Mae'r Gwasanaeth Twyll a Chamgymeriadau yn helpu'r Adran Gwaith a Phensiynau i ganolbwyntio mwy ar sicrhau y caiff y budd-daliadau cywir eu talu i'r bobl gywir. Fe'i cynlluniwyd i helpu'r Adran Gwaith a Phensiynau i wella'r gwasanaeth ymhellach ac i gyflawni gallu o'r radd flaenaf er mwyn atal, canfod a chywiro twyll a chamgymeriadau yn y dyfodol. Mae'r ystadegau a gyhoeddwyd ddiwethaf (amcangyfrifon 2013/14) yn amcangyfrif gordaliadau o £3.3 biliwn o ganlyniad i dwyll a chamgymeriadau, sef 2.0 y cant o'r holl wariant ar fudd-daliadau.

2.3.2 Mae gan y Gwasanaeth Twyll a Chamgymeriadau un pŵer mynediad i eiddo meddiannydd wrth ymchwilio i dwyll budd-daliadau a amheuir. Mae'r pŵer hwn yn ofynnol o dan Adran 109C o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 (y Ddeddf Gweinyddu). Mae Adran 109A yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol awdurdodi unigolion i arfer unrhyw bŵer a roddir i swyddog awdurdodedig gan Adran 109C o'r Ddeddf Gweinyddu. Mae'r pŵer hwn yn galluogi swyddog awdurdodedig i gael mynediad i eiddo penodol at ddibenion archwilio ac ymholi mewn cysylltiad ag unrhyw fater a nodir yn Adran 109A(2) o'r Ddeddf Gweinyddu (fel arfer ar gyfer atal, canfod a diogelu tystiolaeth o dwyll budd-daliadau nawdd cymdeithasol).

2.3.3 Darperir ar gyfer sawl mesur diogelwch o fewn y pŵer hwn fel ag y mae yn cynnwys y canlynol:

- Dim ond swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi i wneud hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac sydd wedi cael yr hyfforddiant priodol fydd â hawl i gael mynediad i unrhyw eiddo sy'n agored i gael ei archwilio.
- Bydd gan swyddog awdurdodedig bŵer mynediad ar unrhyw amser rhesymol i unrhyw eiddo (yn cynnwys eiddo sy'n dŷ annedd yn rhannol neu'n gyfan gwbl) lle mae ganddo sail resymol dros amau ei fod yn eiddo:
  (a) sy'n weithle i unigolyn;
  (b) lle cynhelir masnach neu fusnes, neu lle y caiff dogfennau sy'n ymwneud â masnach neu fusnes eu cadw;
  (c) lle caiff cynllun pensiwn personol neu alwedigaethol ei weinyddu;
  (ch) lle caiff dogfennau sy'n gysylltiedig â'r broses o weinyddu'r cyfryw gynllun eu cadw;
  (d) lle y ceir unigolyn sy'n digolledu mewn perthynas ag unrhyw ddamwain, anaf neu glefyd (fel y cyfeirir ato yn Adran 109(A)(2)(b) o'r Ddeddf Gweinyddu); neu
  (dd) lle y ceir unigolyn y mae unrhyw gyfryw ddigolledydd wedi gwneud taliad iawndal ar ei ran, neu y gall fod wedi gwneud y cyfryw daliad neu y gall wneud y cyfryw daliad.

Gall ofyn i rywun arall fod yn gwmni iddo os bydd yn dymuno.

- Gall swyddog awdurdodedig gynnal y cyfryw archwiliad ac ymholiad fel y bydd yn briodol yn ei farn ef.
- Gall swyddog awdurdodedig sy'n arfer ei bwerau gwestiynu unrhyw unigolyn y bydd yn dod o hyd iddo yn yr eiddo neu ofyn iddo gyflwyno dogfennau fel y bydd yn ofynnol ganddo yn rhesymol.
- Gall swyddog awdurdodedig gymryd meddiant o unrhyw ddogfennau yr ymddengys eu bod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol, a mynd â hwy oddi yno neu eu copïo.
- Ni fydd yn ofynnol i unrhyw unigolyn o dan y pŵer hwn ateb unrhyw gwestiynau na rhoi unrhyw dystiolaeth a fyddai'n tueddu i argyhuddo ei hun, ei briod neu bartner sifil.
- Wrth wneud cais am fynediad i unrhyw eiddo, os bydd yn ofynnol iddo wneud hynny, bydd swyddog awdurdodedig yn cyflwyno ei dystysgrif awdurdod. Bydd hefyd yn rhoi taflen wybodaeth i'r meddiannydd ac yn cynnig dangos y Cod Ymarfer iddo.
- Dim ond gyda chaniatâd y ceir mynediad i eiddo ac ni fydd swyddog awdurdodedig byth yn ceisio defnyddio grym i gael mynediad pan gaiff mynediad ei wrthod gan nad oes ganddo unrhyw bwerau cyfreithiol i wneud hynny.
- Pan fydd swyddog(ion) awdurdodedig yn ystyried bod y penderfyniad i wrthod mynediad wedi'i gymryd i amharu ar eu hymholiadau neu i guddio tystiolaeth, bydd yn ystyried cymryd camau troseddol o dan Adran 111 o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 am arafu neu rwystro swyddog(ion) awdurdodedig rhag arfer eu pwerau yn fwriadol.
- Yn yr amgylchiadau hyn dylai'r meddiannydd gael ei atgoffa o'i ddyletswydd statudol i ddarparu'r wybodaeth a'r ddogfennaeth y gofynnwyd amdani a'r canlyniadau os bydd yn parhau i fethu â gwneud hynny, sef cael ei erlyn o dan Adran 111 o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992.

2.3.4 Ar ôl ystyried pwerau mynediad y Gwasanaeth Twyll a Chamgymeriadau heb warant, daeth yr adolygiad i'r casgliad canlynol:

- Mae Adran 109C o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 yn darparu ar gyfer pŵer angenrheidiol a hanfodol i atal a chanfod twyll budd-daliadau nawdd cymdeithasol, a cheir awdurdodaeth glir a phenodol dros gadw'r pŵer yn ei ffurf bresennol ac ni wneir unrhyw newidiadau i'r Ddeddf o dan yr adolygiad hwn.

2.4 Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

2.4.1 Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw'r corff gwarchod annibynnol cenedlaethol ar gyfer iechyd, diogelwch a salwch cysylltiedig â gwaith. Fel rheoleiddiwr annibynnol, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gweithredu er budd y cyhoedd er mwyn lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau difrifol sy'n gysylltiedig â gwaith mewn gweithleoedd ledled Prydain Fawr. O dan yr adolygiad hwn roedd hefyd yn gyfrifol am ystyried y defnydd o ddarpariaethau pwerau mynediad mewn deddfwriaeth iechyd a diogelwch lle caiff hyn ei arfer gan reoleiddwyr eraill

2.4.2 Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymyrryd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith ac mae'n ymchwilio i'r mathau mwyaf difrifol o ddamweiniau yn y gweithle er mwyn sicrhau bod camau wedi'u cymryd i atal y damweiniau rhag digwydd eto ac i sicrhau cyfiawnder i'r dioddefwr.

2.4.3 Roedd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o'r farn bod chwe darn o ddeddfwriaeth o fewn cwmpas yr adolygiad hwn. O'r rhain, mae pedwar naill ai wedi cael eu diddymu neu disgwylir iddynt gael eu diddymu fel rhan o gamau gweithredu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar adroddiad Löfstedt[1] er mwyn cyfuno a gwella deddfwriaeth bresennol mewn rhai sectorau neu mewn ymateb i Her Biwrocratiaeth y Llywodraeth[2]. Mae'r ddau bŵer sy'n weddill wedi'u cynnwys yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Rheoliadau Diogelwch Nwy (Hawliau Mynediad) 1996:

- Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn rhoi'r trosglwyddiadau a'r pwerau i archwiliwyr a benodwyd yn briodol o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, y Swyddfa dros Reoli Niwclear, Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd, yr Adran Drafnidiaeth, yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr, y Swyddfa Gartref ac archwilwyr awdurdodau lleol i ymchwilio i ddamweiniau, digwyddiadau a chynnal arolygiadau, lle y bo'n briodol. Mae gan archwilwyr bwerau i gael mynediad i eiddo gwaith a chasglu tystiolaeth. Pe byddai'r pwerau hyn yn cael eu colli, byddai gallu'r rheoleiddwyr hyn i amddiffyn gweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn cael eu peryglu'n sylweddol. Yn benodol, byddai'n amharu ar eu gallu i gael mynediad i eiddo gwaith er mwyn gorfodi'r gyfraith a mynd i'r afael â risg ddifrifol.
- Defnyddir pŵer mynediad Rheoliadau Diogelwch Nwy (Hawliau Mynediad) 1996 gan staff o'r rhwydweithiau dosbarthu nwy i'w galluogi i gael mynediad i eiddo domestig a masnachol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu diogelu rhag y risgiau a ddaw yn sgil achosion brys sy'n gysylltiedig â nwy. Mae'r rhain yn cynnwys ymweld â phob achos o nwy yn dianc, a'i wneud yn ddiogel, er enghraifft, nwy yn gollwng, allyriadau mygdarth carbon monocsid neu sefyllfaoedd peryglus eraill. Cafodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sylwadau gan y cwmnïau nwy bod y rheoliadau hyn yn angenrheidiol felly er mwyn diogelu bywyd ac eiddo yn briodol.

[1] Yr Athro R E Löfstedt. *Adfer iechyd a diogelwch i bawb: Adolygiad annibynnol o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch*. Tachwedd 2011. Cm8219.
[2] Gweler: http://www.redtapechallenge.cabinetoffice.gov.uk/home/index/

2.4.4 Ar ôl ystyried y ddau bŵer hyn mae'r adolygiad wedi dod i'r casgliadau canlynol:

- Mae'r pwerau mynediad a ddarperir gan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Rheoliadau Diogelwch Nwy (Hawliau Mynediad) 1996 yn angenrheidiol ac yn hanfodol er mwyn diogelu gweithwyr a'r cyhoedd, ac ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r darnau hyn o ddeddfwriaeth.
- Mae'r mesurau diogelwch sydd ar waith ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod y pwerau hyn yn briodol, yn effeithiol ac yn gymesur â gweithgarwch gorfodi perthnasol, yn addas at y diben.

ISBN 978-1-78425-403-2

(h) Hawlfraint y Goron 2014

Cyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

Tachwedd 2014

www.dwp.gov.uk/cymraeg